Corporate bank accounts have been reconciled to the Accounts Payable system and account names amended accordingly. However, the school account names have not yet been reconciled. This is dependent on the information being sent through from the schools, as in agreed action below.			27/03/18
IAAFIN05a	D161756f - Corp PC: Changes have been identified within the Proactis system, which will provide consistency and enhanced control in processing of petty cash claims. These changes will feed into guidance documents and communicated to all petty cash users.	28/02/18	31/07/18
AP has completed their bit of this in terms of renaming the Creditor records. There are still further actions on the project that are being completed by Finance) and Audit. The date for the completion of the finance section of the guidance has been rolled on, a new completion date of July has been agreed			05/06/18
IAAFIN07a	D171806f - Revs & Bens: Internal Audit will carry out a review of debts under £25 to ensure that the current Financial Regs are being complied with now the new system is more embedded	01/09/17	30/06/18
Internal Audit have reviewed debts under £25 and found that a large number are issued for good reason. Several are annual payments and are carried forward from year to year. Services who are still issuing a significant volume of invoices under £25 have been contacted requesting them to review their processes in this respect. Work is continuing with the Business Support Manager to take this further.			07/06/18
IAAFIN14a	D171807F - Financial Systems 2017-18: - Re-circulate the existing guidance notes showing how VAT should be coded to all the users in Proactis	01/03/18	30/04/18
IAAFIN15a	D171807F - Financial systems 2017-18: Reviewed and amend Financial Regulations to reflect reality with regard to retrospective purchase orders	01/03/18	31/07/18

Highways & Environmental Services

General Information

Contributing Services Highways & Environmental Services

Activities

IAAHES01a	D171803f: Improving our roads priority. To deliver the annual capital highway maintenance programme. We will report progress in three categories; work completed, work not done due to third party issues and work not done due to issues within our control.	01/04/18	31/03/19
	77% of schemes done, 14% are either on site or in design / programmed. 9% of schemes have been deferred (6% for reasons beyond our control and 3% because site conditions have changed and we are no longer able to do the work as planned)		07/01/19
IAAHES05a	D171824f Learner Transport : Update the corporate contract register with all learner transport contracts	01/06/18	30/09/18
	We are currently in the process of updating the corporate contract register with all learner transport contracts		02/07/18
IAAHES10a	D171824f:Learner Transport: Income for the college element of the Learner Transport budget recharges	01/06/18	31/08/18
	At the time of the audit, Term 2 had not been invoiced as supplier claims were awaited (these are not paid until May). A meeting will be arranged with Education, Learner Transport and Finance to include further discussion on `on-account' invoicing at the beginning of the next academic year (to allow up-front charges to be applied based on the previous year's income).		02/07/18
IAAHES11a	D151627f: Fleet: business case for a new system will be developed (ICT procurement). Funding streams will be investigated to cover the purchase cost. If agreed, a new fleet management system will be implemented.	01/04/17	31/10/18
	We are currently going through submitted tenders and will be awarding a new contract in the coming quarter.		30/01/19

Legal, HR & Democratic Services

General Information

Contributing Services Legal, HR & Democratic Services

IAALHRD07a	D171801f - Corporate Document Retention - HR to ensure that documents are disposed of in line with the corporate document retention schedule - ITrent	01/01/18	31/03/19
	This has been halted pending legal advice on retention of files for reference purposes specifically for rolls that work with children and vulnerable adults		14/02/19
IAALHRD09a	D171815f - Travel & Subsistence: Send a DVLA form to all employees who have claimed mileage within the last 12 months.	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD10a	D171815f - Travel & Subsistence: Check the declaration on Proactis to ensure that it complies with the requirements of the policy.	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD11a	D171815f - Travel & Subsistence: Add a separate declaration relating to the completion of the DVLA form in the last 12 months	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD12a	D171815f - Travel & Subsistence: Check the capability of Proactis to see whether it can store information regarding the date the DVLA form was completed	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD13a	D171815f - Travel & Subsistence: Incorporate a process for the monitoring of the return of completed DVLA forms and ensure forms received are checked within 48 working hours of being received by the Council.	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD14a	D171815f - Travel & Subsistence: Update the Travel and Subsistence Policy to reflect the changes in the process for claiming mileage.	01/04/18	31/03/19
	We are currently working on a report for SLT on a proposal for Grey Fleet Checks so that we can have a definitive position on what is required.		14/02/19
IAALHRD15a	D171815f - Travel & Subsistence: To provide a link to the revised policy to the Proactis Team, who will create a link on the P2P Expenses module to the "Travel and Subsistence" policy on the intranet.	01/04/18	31/03/19
	This had been put on hold whilst the revised policy was being completed. It can now progress with a revised date of 31/3/19		11/10/18
IAALHRD16a	D171814 - Joint Procurement: Provide regular updates to Corporate Governance, Audit and Scrutiny and an annual report to Cabinet	01/06/18	31/03/19
	Ongoing, next report to Corporate Governance January 23		15/01/19
IAALHRD19a	D171814f-Joint Procurement: Review contract procedure rules relating to extensions, variations and direct awards to ensure markets are regularly tested and the most competitive price obtained (and remind staff of good practice in relation to these)	01/06/18	31/10/18
	Been redrafted and currently subject to officer review.		15/01/19
IAALHRD23a	D171807F - Financial Services 2017-18: Review and amend the disclaimer allowing staff to opt out of information sharing in line with General Data Protection Regulation.	01/03/18	31/05/18
IAALHRD24a	D171810f - Settlement Agreements - Our review identified some settlement agreement payments where at least one of the required signatories was absent. This control is vital to make sure that key persons are consulted and provide a record that they approved the payment.	25/01/18	31/03/18
IAALHRD25a	D171810f - Settlement Agreements - Inconsistencies in the general housekeeping and document retention of settlement agreement case information could result in the loss of key documentation. This could harm	25/01/18	25/01/18

		any case brought against the Council, leading to potential increased costs and damages		
	IAALHRD36a	Registration Service to consider options with regards to the telephone answer message to improve the customer experience and consider GDPR implications (IAA ref 4.6)	01/12/18	31/12/18

Planning & Public Protection

General Information

Contributing Services | Planning & Public Protection

Activities

IAAPPP04a	D171817f - CCTV Partnership: The draft Service Level Agreement (SLA) between the Partnership Board and Cheshire West and Chester Council (CWAC) does not include any performance targets that CWAC can be measured against.	01/04/18	31/07/18
	North Wales Police, DCC and Cheshire West and Chester are working on developing a set of performance measures which will be reported to every Board meeting. Draft measures have been suggested and are to be agreed by all partners. I will update you once this has been agreed by the Board.		06/11/18
IAAPPP05a	D151630f-Housing Enforcement: Modernisation of the payment process for Houses in Multiple Occupancy licences.	01/04/18	31/03/19
	Website is continuing to be re-developed which includes the method of payment for licensing fees.		21/01/19
IAAPPP07a	Welsh Transport Grants (D181905f) - Basic housekeeping of files will be undertaken in the short term to minimise duplication and to ensure all files are accessible. This will be done ahead of the new application process for financial year 2019-20 funding.	01/11/18	31/12/18
	Approximately 50% complete. To be completed by end of Q4.		21/01/19
IAAPPP10a	Welsh Transport Grants (D181905f) - A debrief for the project team will be held at the end of each large grant-funded project, or for a collection of smaller projects. Findings to be discussed at Traffic Case Conference meeting as shared-learning.	01/11/18	31/12/18
	Case conference being held April 2019		21/01/19

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	6 Mawrth 2019
Aelodau / Swyddogion Arweiniol:	Julian Thompson-Hill
Awdur yr Adroddiad:	Richard Weigh
Teitl:	Proses y Gyllideb ar gyfer 2019/20 a Pharatodau ar gyfer 2020/21

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu trosolwg o'r broses i osod y gyllideb ar gyfer 2019/20 a pharatodau ar gyfer cyllideb 2020/21.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl i gadw trosolwg o broses y gyllideb. Mae'r adroddiad yn egluro'r broses a ddarparodd y gyllideb ar gyfer 2019/20 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ar gyfer 2020/21.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y broses a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

4. **Manylion yr adroddiad**

Dros y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd dulliau amrywiol wrth osod y gyllideb, o gyllidebu ar sail sero yn tanseilio'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i dargedau effeithlonrwydd wedi'u cydraddoli ar draws wasanaethau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Cefnogwyd y ddau ddull gan arbedion ariannu corfforaethol a'r defnydd call o arian parod. Fodd bynnag, o fewn cyd-destun y gostyngiadau ariannol parhaus, y pwysau o gostau allanol a'r galw cynyddol mewn meysydd allweddol, mae'r broses ar gyfer gosod cyllideb y cyngor ac i benderfynu ar strategaeth ariannol tymor canolig wedi'i diwygio.

Ym mis Ionawr 2018, sefydlwyd bwrdd mewnol o'r enw Bwrdd Ail-lunio'r Cyngor i:

- Ddiffinio a darparu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hyd at ddiwedd 2022/23.
- Sicrhau y gellir gosod cyllideb gytbwys ar gyfer bob blwyddyn ariannol o fewn y rhaglen.
- Cefnogi darpariaeth Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Darparu dull a reolir i ddatblygu cyngor llai wedi'i redeg yn dda

Cafodd Cylch Gorchwyl y Bwrdd ei ddsbarthu i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ymlaen llaw.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Bwrdd yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Bydd rhaid i unrhyw gynig sy'n codi o waith y Bwrdd ddilyn y llwybrau cymeradwyo presennol a bydd rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion presennol o ran ymgynghori, effaith ar les ac ati.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn ystyried y gofynion uniongyrchol i ddarparu cyllideb yn flynyddol ond yng nghyd-destun barn strategol ehangach. Yn ychwanegol, mae'r Prif Weithredwr ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth y cyngor wedi datblygu cyfres o egwyddorion i gefnogi'r broses cyllideb strategol. Bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen Strategaeth Ariannol Tymor Canolig nesaf a gyhoeddir ond yn cynnwys proses ar sail dystiolaeth a chanlyniad gyda phwyslais ar y Cyngor yn cymryd camau mor fentrus a rhagweithiol â phosibl, i helpu i gyfyngu effaith toriadau cyllido ar flaenoriaethau a gwasanaethau rheng flaen.

Mae proses y gyllideb a'r cyfeiriad strategol yn seiliedig ar ac yn cael eu dylanwadu gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'n mesur y rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i gyllid a chostau dros dair/ pedair blynedd ac yn nodi'r bwlch posibl yn y gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ystyried y rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn cefnogi newid sefyllfaoedd neu risgiau drwy gydol y flwyddyn.

Roedd y dull a ddefnyddiwyd i ddechrau'r broses ar gyfer 2019/20 i ddechrau yn cynnwys gwasanaethau'n modelu effaith toriadau ariannol. Mae hyn, ynghyd â dadansoddiad manwl o'r cyllidebau gwasanaeth, incwm ac arian wrth gefn ac ystyriaeth strategol gan y Bwrdd, wedi arwain at nifer o gynigion yn cael eu datblygu mewn dull graddol drwy gydol y flwyddyn. Y nod oedd sicrhau bos ystod o ddewisiadau ar gael wedi i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru gael ei gadarnhau yn yr hydref.

Lefel y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar gyllid gan ei fod yn cyfrif am oddeutu 75% o gyllideb net y Cyngor. Gan nad oes unrhyw fath o ffigyrau rhag-gynlluniedig na dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, mae'n rhaid i'r Cyngor amcangyfrif beth fydd y setliad achos canolog a datblygu cynlluniau o amgylch hynny. Darperir hysbysiad arfaethedig o'r setliad ym mis Hydref sy'n rhoi mwy o sicrwydd o ran y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Ar y pwynt hwn yn y flwyddyn, bydd proses y gyllideb eisoes wedi nodi a datblygu ystod o gynigion arbed y gellir eu dwyn ymlaen os oes angen.

Dilynodd proses y gyllideb ar gyfer 2019/20 y dull hwn. Roedd asesiad y Cyngor o lefel y setliad yn gywir, felly erbyn mis Hydref, roedd cynigion arbed o £5.7m wedi'u nodi er mwyn eu dwyn ymlaen. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r pwysau gynyddu'n sylweddol mewn perthynas â gwasanaethau plant a chlodiant i'r ysgol ac fe gydnabuwyd hyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn ogystal â phwysau cyllido ychwanegol o fewn meysydd eraill megis tâl a phensiynau athrawon, gwastraff a'r cynnydd o ran ardoll y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Roedd y sefyllfa ganlyniadol yn golygu bod pecyn cyllideb yn barod i'w argymhell i'r Cabinet ar 22 Ionawr a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yr wythnos ganlynol.

Yn ystod y flwyddyn, brifiwyd yr aelodau etholedig yn ystod tair sesiwn gweithdy cyllideb, yn cynnwys un yn gynnar ar ddechrau mis Ionawr, lle'r oedd y pecyn terfynol yn cael ei egluro'n fanwl.

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer proses 2020/21 eisoes wedi dechrau gyda'r Bwrdd yn ystyried amserlen amlinellol a dull manwl. Gweler o'r amserlen ddrafft ynghlwm – ond rhaid pwysleisio mai drafft yw'r amserlen yn unig – nid yr amserlen derfynol. Serch hynny, mae'r amserlen yn rhoi syniad o ddyddiadau a cherrig milltir.

Bydd yr un dull o reoli rhagdybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn parhau a hyd yma, mae'r Bwrdd wedi cefnogi newidiadau i ragdybiaethau cyllid, felly mae lefel y setliad cyllid yn 0% a'r rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer Treth y Cyngor yn 3.8%. Mae hyn yn arwain at fwch posibl yn y gyllideb o £5.4m ond mae'n ddangosol gan nad yw nifer o ragdybiaethau pwysau cost wedi'u diweddarau eto. Mae'n debygol y bydd y bwch yn y gyllideb yn cynyddu oni bai bod y sefyllfa ariannu yn gwella.

Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar lefel y DU yn allweddol i'r sefyllfa ariannu yn y tymor canolig. Bydd hwn yn cael ei gynnal yn 2019 ond nid oes dyddiad wedi'i osod eto. Bydd yr adolygiad yn penderfynu faint o arian a ddyrennir i adrannau'r llywodraeth ar gyfer y tair / pedair blynedd nesaf, yn cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig. Bydd hyn yn cadarnhau lefel y cyllid i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei thro yn gosod ei chynlluniau cyllideb, yn cynnwys lefel y cyllid i lywodraeth leol.

Mae'n rhaid i broses cyllideb y Cyngor fod yn ddigon hyblyg i ymdopi ag ystod o ddigwyddiadau posibl ac felly byd dyn parhau i ddatblygu'r dull a lwyddodd i ddarparu cyllideb 2019/20.

Mae amserlen proses y gyllideb ynghlwm yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sawl sesiwn ymgysylltu ag aelodau drwy gydol y flwyddyn. Mae adborth o broses 2019/20 yn nodi bod aelodau yn dymuno cynnwys dadansoddiad pellach a manylion o feysydd pwysau gwasanaeth allweddol yn y sesiynau hyn a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen. Tynnodd aelodau sylw hefyd at y potensial ar gyfer digwyddiad ymgysylltu ac ymgynghori ehangach â'r cyhoedd ac mae dull i gyflawni hyn wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau'r cyngor a chyflawni strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni yn sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Yn seiliedig ar ragdybiaethau presennol, mae'r cyngor yn wynebu bwch posib yn y gyllideb o dros £6m ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn. Mae proses y gyllideb yn cynnwys asesiad i roi gwybod a oes angen cynnal asesiad effaith ar gynigion cyllideb unigol. Cyfrifoldeb y Penaethiaid Gwasanaeth yw gwneud y penderfyniad hwn yn y lle cyntaf gydag archwiliad pellach gan Fwrdd y Gyllideb i sicrhau cysondeb a phriodoldeb.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd Briffio'r Cabinet. Mae cyfarfodydd briffio'r gyllideb wedi'u trefnu ar gyfer pawb sydd wedi'u hethol. Ymgynghorir ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgorau Corfforaethol. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gefnogi gan wybodaeth gyffredinol ar wefan y cyngor a bydd gweithgaredd ymgysylltu penodol lle bo'n briodol neu bo'r angen ar gynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl i gadw trosolwg o broses y gyllideb.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Roedd dull diwygiedig i broses y gyllideb yn angenrheidiol i gydnabod y pwysau ariannol parhaus y mae'r cyngor yn ei wynebu. Rhaid fframio'r gofyniad i osod cyllideb gytbwys yn flynyddol o fewn cyfeiriad strategol ehangach a'r Bwrdd newydd yw'r cyfrwng i ddarparu hyn. Bu i'r broses weithio'n dda ar gyfer cyllideb 2019/20.

Mae'r pwysau ariannol y mae'r cyngor yn wynebu yn cael ei yrru gan ffactorau allanol yn bennaf. Er bod yr ansicrwydd o ran lefel y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru o flwyddyn i flwyddyn yn broblem o safbwynt cynllunio ariannol, gobeithir y bydd mwy o gydnabyddiaeth o raddfa'r pwysau y mae cynghorau yn wynebu yn y dyfodol.

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**


Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses yn caniatáu peth hyblygrwydd mewn ymateb i'r setliad cyllidol.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

ATODIAD 1 PROSES Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG 2020/21 (DRAFFT)

TROSOLWG O'R GYLLIDEB – Bwrdd Ail-lunio'r Cyngor, diweddariadau misol i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd Briffio'r Cabinet. Adroddiadau Rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a diweddariadau i Gydyfarfod y Cabinet



Proses

Ymgysylltu ag Aelodau

Ymgynghori

Cymeradwyaeth Ffurfiol

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	6 Mawrth 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2017-18 Cyngor Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2017– 18 Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae'n amgaeedig. Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2017/18.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn bod yr adroddiad mewnol hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hwn yn flynyddol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad SAC. Bydd cynrychiolwyr SAC yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2017/18, ac at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2017/18. Mae'r Cyngor yn derbyn y ddau argymhelliad sy'n ymwneud â hawlio Budd-dal Tai ac wedi cytuno ar gamau gweithredu a swyddogion cyfrifol i fynd i'r afael â'r rhain.

Roedd yr unig addasiad dros £10,000 yn ymwneud â hawl am Gymhorthdal Budd-Dal Tai. Roedd y diwygiad o £13,559 yn seiliedig ar wall gwirioneddol a nodwyd o £393 a or-dalwyd mewn budd-dal tai, a oedd yna wedi'i allosod ar draws y boblogaeth a brofwyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Cyllid Grant yn hanfodol wrth ariannu'r gwariant mewn meysydd megis addysg ac ysgolion, priffyrdd a'r amgylchedd ac adfywio. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grant.

- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2017-18 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ymwneud â grantiau a ffurflenni.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu iddo ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n braf nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau da ar waith. Mae argymhellion a sylwadau yn yr adroddiad wedi cael eu hadolygu a'u gweithredu arnynt. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.
- 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ardystio Grantiau a Datganiadau 2017-18 **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1066A2019-20

Tudalen 49

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Mae'r tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Derwyn Owen, Matthew Edwards, Gareth Evans ac aelodau eraill tîm Swyddfa Archwilio Cymru.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Penawdau	5
Crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ardystio	7
Argymhellion	10

Tudalen 51

Crynodeb

- Tudalen 52
- 1 O dan baragraff 20 o Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff cyhoeddus arall, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i ardystio hawliadau a datganiadau (cyfeirir atynt fel hawliadau, o hyn ymlaen).
 - 2 Ymgwymerwyd â'n gwaith gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:
'A oes gan Gyngor Sir Ddinbych (yr Awdurdod) drefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod ceisiadau am grantiau yn cael eu cynhyrchu yn gydgyssylltiedig, yn gywir, ac yn amserol ac wedi eu cofnodi'n gywir?'
 - 3 Rydym wedi cwblhau ein gwaith ardystio a dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod drefniadau da ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ei hawliadau grant ar gyfer 2017-18. Rydym wedi gwneud dau argymhelliad ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Cyngor i wneud fwy o welliannau yn barod ar gyfer archwiliad ardystio hawliadau grant 2018-19. Mae ein casgliad ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:
 - Mae'r awdurdod wedi gweithio'n agos gyda ni i sicrhau bod rhaglen gywir a chyfredol o grantiau 2017-18 ar gael drwy gydol y flwyddyn; a
 - gwallau cymharol fychan yn unig a nodwyd gan ein profion.
 - 4 Rydym wedi ardystio saith hawliad sydd werth £108.1 miliwn ar y cyd. Cyflwynodd yr awdurdod bob un ohonynt ar amser, ac fe wnaethom ni eu hardystio nhw am gost gyfan o £48,937 (£65,359 yn 2016-17). Mae cyfanswm y gost yn eithrio ffioedd sy'n ymwneud ag archwilio parhaus dau grant Diogelu'r Arfordir ychwanegol (cyfanswm o £1.2 miliwn). Mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ac ardystio grantiau Diogelu'r Arfordir yn wahanol i grantiau eraill Llywodraeth Cymru sy'n destun archwiliad. Byddwn yn adrodd ein canfyddiadau ar waith yr archwiliad hwn sy'n weddiill yn adroddiad 2018-19.
 - 5 O'r saith hawliad a ardystiwyd, un hawliad yn unig oedd ag amod. Mae hyn yn cymharu'n dda â'r cyfartaledd hirdymor Cymreig o 1:4.

Penawdau

Cyflwyniad a chefnidir	Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith o ardystio hawliadau grant a datganiad 2017-18 yr awdurdod <ul style="list-style-type: none">• Ardystiwyd saith hawliad a oedd werth cyfanswm o £108.1 miliwn.• Darparwyd y swyddogion â Rhestr Wirio Arferion Da cynhwysfawr ar gyfer y Grant i'w chynnwys ar bob ffeil hawliad. Amlygodd y Rhestr Wirio Grant y meysydd allweddol y byddem yn eu hadolygu.• Rydym wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn er mwyn darparu sylwadau ar y cyd ar gyfer y swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli grantiau fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i ganfod rhagor o welliannau wrth baratoi hawliadau.
Derbyn hawliadau yn amserol	Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 100% o'r hawliadau a roddwyd inni yn ystod y flwyddyn wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer yr Awdurdod yn y telerau a'r amodau.
Ardystio canlyniadau	Cyhoeddwyd tystysgrifau diamod ar gyfer chwe hawliad a datganiad, ond roedd amod yn angenrheidiol ar gyfer y datganiad Cymhorthdal Budd-dal Tai. <p>Gellir grwpio'r rhesymau dros gymhwyso'r hawliad yn faterion parhaus a nodwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol a materion sydd wedi dod i'n sylw ni am y tro cyntaf:</p> <p>Materion amodi a adroddwyd yn ystod y blynyddoedd ariannol blaenorol</p> <ul style="list-style-type: none">– Nodwyd gwallau yn y ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cyfrifo'r incwm pan roedd yr hawliwr neu bartner yn cyfrannu at gynllun pensiwn galwedigaethol.– Parhaodd yr Awdurdod i gyfrifo'r rhent cyfartalog wythnosol ar gyfer Cell 229 yr hawliad gan ddefnyddio dull gwahanol i'r hyn a bennwyd yn yr offeryn statudol. <p>Materion amodi a adroddwyd am y tro cyntaf yn 2017-18</p> <ul style="list-style-type: none">– Nodwyd bod gwall yng nghyfrifiad enillion yr hawlwr a arweiniodd at ordaliadau budd-dal tai.

Tudalen 53

	<p>Yn ychwanegol at yr un hawliad ag amod, cyhoeddwyd Nodyn Sylwadau Ardystio gennym mewn cysylltiad â thri hawliad grant:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif; – Crynodeb o Grantiau Llywodraeth Cymru Ardystiedig; a – Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol. <p>Llythyr yw'r nodyn sylwadau ardystio a gyflwynir i Swyddog Adran 151 ar ôl nodi gwallau gyda gwerthoedd isel a materion nad ydynt yn ymwneud ag amodau hawliadau a datganiadau Llywodraeth Cymru, y byddwn yn argymhell gwelliannau i stiwardiaeth hawliadau'r dyfodol ynddynt.</p>
Gwneud addasiadau i'r cais	<p>Nid oedd angen addasu unrhyw un o hawliadau'r Awdurdod o ganlyniad i'n gwaith eleni Nid oedd unrhyw addasiadau sylweddol (h.y. dros £10,000).</p>
Trefniadau'r Awdurdod	<p>Mae gan yr Awdurdod drefniadau da ar gyfer paratoi ei hawliadau a datganiadau, a chefnogi ein gwaith ardystio. Rydym yn cydnabod cymorth a chydweithrediad yr Awdurdod (gan gynnwys staff a gyflogir gan Civica) yn ystod yr archwiliad. Ymatebwyd i'n hymholiadau ni mewn modd amserol ac roedd y papurau gwaith a ddarparwyd o safon dda yn gyffredinol.</p>
Ffioedd	<p>Ein ffioedd cyfan ar gyfer gwaith ardystio 2017-18 yw £48,937, sy'n llai na'n hamcangyfrif o £60,000 a adroddwyd ichi yn ein Cynllun Archwilio 2018. (Eithrir unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig ag archwilio dau grant Diogelu'r Arfordir sy'n weddill y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad).</p>

Crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ardystio

- 6 Mae'r dudalen ganlynol yn darparu crynodeb o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar hawliadau a datganiadau 2017-18, gan ddangos naill ai'r manau lle'r oedd gwelliannau wedi eu gwneud neu le bu rhaid inni gymhwyso ein tystysgrif archwilio.
- 7 Mae amod yn golygu y nodwyd materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellid eu datrys drwy addasiad. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff perthnasol sy'n talu'r grantiau angen mwy o wybodaeth gan yr Awdurdod, er mwyn bodloni ei hun bod symiau llawn y grant a hawliwyd yn briodol.

Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2017-18

At ei gilydd, rydym wedi ardystio 7 grant a datganiad:

Roedd angen amod ar ein tystysgrif archwilio ar gyfer 1 hawliad.

Roedd 6 hawliad yn ddiamod heb welliannau.

Roedd 1 hawliad yn ddiamod ond roedd angen gwelliannau arno.

Roedd gan 3 hawliad Llywodraeth Cymru wallau gyda gwerthoedd isel (llai na £10k) nad oedd angen gwelliannau nag amodau arnynt.

Dosbarthwyd 3 Nodyn Sylwadau Ardystio i'r Swyddog Adran 151.

8 Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol y tu ôl i bob un o'r addasiadau neu'r amodau a nodwyd yn ystod ein gwaith.

Cyf	Sylwadau cryno	Gwelliant
1.	<p>Cymhorthdal Budd-dal Tai (BEN01)</p> <p>Amodwyd yr Hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai oherwydd bod nifer o fân wallau wedi eu nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd gwahaniaeth anesboniadwy o £221 rhwng swm y cymhorthdal Ad-daliad Rhent a hawliwyd a'r swm a ganiatwyd i'w dalu yn ôl meddalwedd cysoni cyflenwr yr Awdurdod. Roedd yr Awdurdod wedi hawlio'r isaf o'r ddau swm. Nododd ein profion wall yn ymwneud â chyfrifo enillion, a olygodd bod angen inni ymestyn y meintiau sampl. Cyfanswm y gwall ei hun mewn gordaliadau budd-dal tai oedd £393; cynyddodd hynny i £13,559 wrth iddo gael ei allosod ar draws y boblogaeth a brofwyd. Nododd profion ychwanegol ddau wall arall wrth gyfrifo enillion, gyda'r ddau yn arwain at dandaliadau. <p>Roedd ein llythyr amodi i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnwys yr arsylwadau canlynol hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Tandaliadau Budd-dal Tai, oherwydd bod yr Awdurdod wedi cyfrifo enillion yr hawliwr yn anghywir lle bo cyfraniadau pensiwn yn berthnasol. Yn unol â'n cyfarwyddiadau ardystio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, nid yw'n ofynnol inni gynnal profion ychwanegol ar wallau sy'n arwain at dandaliadau. Adroddwyd canfyddiadau tebyg gennym i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ein llythyr amodi 2016-17. Dywedodd yr Awdurdod nad oedd yw'r system dai yn gallu cyfrifo cyfartaledd rhent wythnosol yn unol â'r diffiniad statudol, ac yn lle hynny mae'n cyfrifo'r cofnod ar gyfer cell 229 yr hawliad cymhorthdal drwy ddefnyddio dull gwahanol. 	<p>£13,559 (gwall wedi ei allosod). Nid yw'r gwall hwn yn effeithio ar hawl cymhorthdal cyffredinol yr Awdurdod.</p>

Cyf	Sylwadau cryno	Gwelliant
	Mae'r materion a amlygwyd yn ystod archwiliad 2017-18 wedi eu trafod ar wahân gyda staff Civica, sy'n gweinyddu Budd-dal Tai ar ran yr Awdurdod.	
2.	<p>Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (LA01)</p> <p>Diwygiwyd Datganiad Cyfraniadau Terfynol yr Ardrethi Annomestig oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwall trawsosod rhwng dwy res ar y datganiad; a • rhes lle'r oedd angen mewnbynnu sero a adawyd yn wag ar y datganiad gwreiddiol. <p>Nid oedd y gwallau hyn yn effeithio ar gyfraniad blynyddol terfynol yr Awdurdod i gronfa'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.</p>	£0
	Cyfanswm effaith y gwelliannau ar hawliadau a datganiadau'r Awdurdod	£0

Argymhellion

- 9 Rydym wedi rhoi sgôr risg ar gyfer pob argymhelliad, gan gytuno ar ba gamau y bydd yn rhaid i'r tîm rheoli eu cymryd. Byddwn yn dilyn yr argymhellion hyn yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Blaenoriaeth 1	Blaenoriaeth 2	Blaenoriaeth 3
<p>Materion sy'n sylfaenol ac yn berthnasol i'ch trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli grantiau a datganiadau, neu ar gyfer cydymffurfio â gofynion y cynllun.</p> <p>Credwn y gallai'r materion hyn olygu nad ydych yn bodloni gofynion cynllun grant, neu nad ydynt yn lleihau (lliniaru) risg.</p>	<p>Materion sy'n cael effaith bwysig ar eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a datganiadau, neu ar gyfer cydymffurfio â gofynion y cynllun, ond nid oes angen gweithredu ar unwaith.</p> <p>Gallech fodloni gofynion cynllun o hyd, yn llawn neu'n rhannol neu leihau (lliniaru) risg yn ddigonol, ond bod y gwendid yn parhau i fod yn y system.</p>	<p>Materion a fyddai, pe byddent yn cael eu cywiro, yn gwella eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a datganiadau neu ar gyfer cydymffurfio â gofynion y cynllun yn gyffredinol, ond nid ydynt yn hanfodol i'r system yn gyffredinol.</p> <p>Yn gyffredinol, materion arferion gorau yw'r rhain y teimlwn y byddent o fudd i chi pe byddech yn eu cyflwyno.</p>

Mater	Goblygiad	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Sylw	Swyddog sy'n gyfrifol a'r dyddiad targed
Gwallau cyfrifo hawliadau Budd-dal Tai – o ran cyfrifo enillion yn benodol	<ul style="list-style-type: none"> Colli cymhorthdal – gallai ad-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gael eu lleihau Gellid amodi'r hawliad 	A1 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod mesurau gwirio ansawdd talu ymlaen llaw yn ddigon cynhwysfawr i nodi unrhyw wallau a gofynion hyfforddiant posibl a ddylai gael sylw fel blaenoriaeth.	2	Caiff 4% o achosion eu Gwirio am Ansawdd yn allanol yn wythnosol. Rydym wrthi'n cyflwyno canran uwch o achosion am wiriadau Sicrwydd Ansawdd pob wythnos. Caiff unrhyw wall eu nodi a'i wirio yn ein matrices hyfforddi fel blaenoriaeth.	Jeanette Round Yn barhaus

Mater	Goblygiad	Argymhelliad	Blaenoriaeth	Sylw	Swyddog sy'n gyfrifol a'r dyddiad targed
	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n bosibl nad yw preswylwyr sy'n agored i niwed yn cael y swm Budd-dal Tai (a CTRS) llawn y mae ganddynt yr hawl iddo. 	<p>A2 Dylai'r Awdurdod gynnal adolygiad o'r holl hawliadau incwm a enillir lle bo pensiwn galwedigaethol yn bresennol i sicrhau bod y dyfarniad budd-dal cywir wedi ei wneud.</p>	2	<p>Hysbyswyd yr holl staff o'r materion a godwyd o'r archwiliad a sut i fynd i'r afael â'r math yma o hawliau yn y dyfodol. Mae adolygiad o hawliau ble mae pensiynau galwedigaethol yn bresennol wrthi'n cael ei chynnal.</p>	<p>Jeanette Round 31 Mawrth 2019</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	6 Mawrth 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Lisa Lovegrove, Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lovegrove, Prif Archwilydd Mewnol
Teitl:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2019-20

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer 2019-20 i adlewyrchu cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chanllawiau Ymarferol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Roedd angen diweddarau'r rhaglen gwaith i'r dyfodol i adlewyrchu gofynion Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a sicrhau bod amserlen yr eitemau ar y rhaglen yn ymdrin â holl agweddau o rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor fel y nodir yn y cylch gorchwyl.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn adolygu'r rhaglen gwaith i'r dyfodol arfaethedig ar gyfer 2019-20, yn awgrymu unrhyw addasiadau ac yn cymeradwyo ei fabwysiadu.

4. **Manylion yr adroddiad**

Mae Atodiad 1 yn cynnwys tabl yn dangos amserlen adroddiadau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn 2019-20. Mae hyn yn adlewyrchu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a ddiweddarwyd yn ddiweddar i gyd-fynd â Chanllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio.

Mae'r gweithgareddau allweddol a nodir yn y rhaglen waith yn cynnwys:

- Cadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu trefniadau a sefyllfa'r Cyngor
- Monitro effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol a'r sicrwydd a geir o ran ei weithrediad
- Ystyried gweithgareddau rheoli risg
- Sicrhau bod Archwilio Mewnol yn annibynnol ac effeithiol
- Adolygu cyfrifoldebau Archwilio Mewnol a sicrhau fod ganddynt yr adnoddau gofynnol i weithredu yn unol â'r safonau proffesiynol.
- Adolygu'r strategaeth archwilio mewnol a derbyn adroddiadau ar ganlyniadau'r gwaith archwilio mewnol
- Adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg o dwyll
- Adolygu cynllun archwilio blynyddol yr archwilydd allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) a sicrhau ei fod yn gyson â chwmpas ymgysylltiadau archwilio.
- Adolygu canlyniadau gwaith yr archwilydd allanol
- Adolygu datganiadau ariannol a barn yr archwilydd allanol ar y datganiadau

- Ystyried argymhellion archwilio ac arolwg allanol a sicrhau yr ymatebir yn llawn i'r rhain
- Adolygu a monitro trefniadau rheoli'r trysorlys

Os bydd materion yn codi yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd adroddiadau yn cael eu hychwanegu at raglen y Pwyllgor gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Cynorthwyo i sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac yn darparu trosolwg digonol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, amgylchedd rheoli mewnol, rheoli risg ac ati, er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol.
- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol – nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Mae'r rhaglen gwaith i'r dyfodol wedi'i adolygu mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Pennaeth Cyllid/ Swyddog Adran 151, Rheolwr Gwasanaethau Democraidd, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.
- 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ceisio diwallu'r safonau a sefydlwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae cynnal a chadw rhaglen waith yn gyson yn cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r cylch gorchwyl.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

Drafft Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2019-20

= Eitemau Untro

Testun	10 Ebrill 2019	5 Mehefin 2019	10 Gorffennaf 2019	11 Medi 2019	20 Tachwedd 2019	Chwefror 2020	Mawrth 2020
Swyddfa Archwilio Cymru	Cynllun Archwilio Blynyddol		Adroddiad Gwella Blynyddol SAC	Adroddiad Archwilio Datganiad Ariannol			Ardystio grantiau a ffurflenni grant 2017/18
Rheoli'r Trysorlys			Rheoli'r Trysorlys			Strategaeth Rheoli'r Trysorlys	
Cyllid			Datganiad Cyfrifon Drafft	Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon	Diweddariad ar y Gyllideb		Proses y Gyllideb
Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol
		Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol	Adroddiad Blynyddol Twyll				Strategaeth a Siarter Archwilio Mewnol
Llywodraethu a Rheoli Risg	AGS	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	Adroddiad blynyddol am y Cyfansoddiad	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch	Adroddiad Blynyddol ar Rannu Pryderon	Diweddariad ar y Cynllun Gwella Llywodraethu	
	Y wybodaeth ddiweddaraf am Reoli Risgiau Corfforaethol		Adroddiad cryno Herio'r Gwasanaeth - ER GWYBODAETH	Adroddiad Blynyddol Uwchberchennog Risg Gwybodaeth	Adroddiad Blynyddol RIPA		
					Adroddiad Blynyddol Cwynion a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon		
Materion a atgyfeiriwyd gan y Pwyllgor Craffu (os oes rhai) / Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar (os oes rhai)							
Adroddiadau eraill a geisiwyd	Archwiliad Dilynol yr uned gaffael ar y cyd	Archwiliad Dilynol Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion		Archwiliad Dilynol y Gwasanaeth Cofrestru			

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	6 Mawrth 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl:	Strategaeth a Siarter Archwilio Mewnol 2019-20

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Siarter a Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 i'r Pwyllgor. Mae'r Siarter yn diffinio diben, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Prif Archwilydd Mewnol ddarparu 'barn' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

